Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 60** **Haf 2022**



## 'A oes heddwch?'

## Hir yw pob  ymaros

'O'r diwedd,' meddwn. Wedi paratoi ac oedi, wedi gohirio a disgwyl drachefn, ar y trydydd cynnig fe ddaw'r Eisteddfod i Geredigion ymhen y mis. Mawr yw'r edrych ymlaen a mawr yw'r gobeithion y bydd y tywydd yn ffafriol. Bydd y trefnwyr a'r ymwelwyr, fel ei gilydd, yn gobeithio y bydd y trefniadau ymarferol am barcio ceir a mynediad i'r maes yn syrthio'n rhwydd i'w lle!

'O'r diwedd', fe gawn ni gwrdd â'n gilydd eto a chael oedi i sgwrsio a dal i fyny gyda'r newyddion am enedigaethau, a marwolaethau, a phriodasau, ac am lwyddiannau neu bryderon teulu a ffrindiau na fedron ni eu gweld yn ystod y cyfnod clo. Mawr yw'r edrych mlaen i gael crwydro'r maes a mwynhau ymweld â stondinau a mwynhau golygfeydd o gyffiniau Tregaron ar eu gorau.

'O'r diwedd', fe gawn ni wrando ar ddarlithoedd a chynnig ein hasesiadau doeth o gystadleuwyr wrth iddynt berfformio'r darnau prawf – yn offerynwyr a chantorion, yn ddawnswyr a llefarwyr.

A hir fydd yr aros, hyd yn oed ar faes yr eisteddfod ac yn y pafiliwn wrth i ni ddisgwyl, a gobeithio, am deilyngdod yn y prif gystadlaethau.

Bydd gan un o drigolion Bow Street fwy o achos na neb ohonom  i obeithio y bydd y beirniaid yng nghystadleuaeth y Gadair yn barnu bod un bardd yn deilwng i eistedd ynddi. Rees Thomas yw hwnnw, gan mai ef a gynlluniodd ac a dreuliodd oriau'n mesur, ac ailfesur, yn torri ac yn gosod yr holl ddarnau at ei gilydd i greu campwaith o Gadair hardd fydd yr enillydd teilwng yn ei chael ar ddydd Gwener olaf yr ŵyl.

Mawr yw'r edrych ymlaen at gael gweiddi 'Heddwch' a chymeradwyo teilyngdod a champ yr enillydd. Mawr yw'n gobeithion am ŵyl lwyddiannus yn Nhregaron eleni, a mawr hefyd yw'n diolch i'r trefnwyr, yn lleol ac yn genedlaethol, am ddyfalbarhau gyda'r trefniadau pan oedd yr amgylchiadau mor heriol.

***

Yn y byd mawr o'n cwmpas, i'n golwg ni, araf yw'r byd yn dod i drefn. Mae helyntion gwleidyddol San Steffan, cynhesu byd-eang, a'r heriau ariannol sy'n wynebu ein teuluoedd yn peri i ni wingo, a gofynnwn ynom ein hunain, 'Arglwydd, am ba hyd?' Fe hoffem fedru ymweld ag Wcráin a sefyll ar strydoedd Mariupol a Donetsk a chlywed dim ... dim ond tawelwch, a chân adar, heb unrhyw seiniau bygythiol uwchben. Ac yn Yemen, Afghanistan a llu o fannau bygythiol yn y byd, hoffem fedru ateb y waedd 'A oes heddwch' â'r datganiad llawen, 'Heddwch'.

***

Ac onid am 'Heddwch' yr ydym yn hiraethu, bob un? Ac onid yr hyn a ofnwn yn fwy na dim yw bod y gwacter sydd ynom yn siambr wag sy'n chwyddo sain terfysg y byd oddi allan a'r ofnau bod ein bywydau, bod Bywyd, mewn gwirionedd yn ddiystyr?

Beth pe na bai unrhyw ystyr na gwerth i Fywyd? Beth pe na bai unrhyw Un yn medru agor llyfrau hanes i farnu'n ddiduedd falchder, ymffrost ac esgusodion hunangyfiawn ein hoes? Beth os mai'r hyn rydym yn ei ganol yn ddiddiwedd fydd rhawd greulon pobloedd y byd hyd nes i ni ddifodi'r cyfan mewn trais neu drwy ddifetha'r greadigaeth yr ydym yn dibynnu arni am ein bywyd?

A oes unrhyw un i eistedd yng nghadair y buddugwr?

Nid mewn anobaith y'n gadewir heddiw fel pobl sy'n arddel ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Mae'n wir fod yr hyn a ddatguddiwyd i Ioan (Datguddiad 5) yn newyddion torcalonnus am 'na chafwyd neb yn deilwng' i agor llyfrau caeedig hanes. Nid oedd un o blith athronwyr, na gwladweinwyr, na diwinyddion, nac arweinwyr crefyddol y byd yn atebol i'r dasg!

Ond heddiw, gwelir Un y mae holl lu'r nef yn ei anrhydeddu drwy eu bonllefau o fawl. 'Teilwng wyt ti', yr Oen a gafodd ei ladd, y buddugwr, y  Llew o lwyth Jwda, yr Arglwydd Iesu Grist, i eistedd yng nghadair Prifwyl dragwyddol y nef!

*Watcyn James*

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 24 Gorffennaf | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel Seion<br>am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog<br>Casgliad tuag at Hadau Gobaith |
| 31 Gorffennaf | Oedfa'r Eisteddfod Genedlaethol<br>Pafiliwn yr Eisteddfod, am 9 o'r gloch<br>(DS Mae angen i bawb fod yn eu seddau<br>erbyn 8.30 o'r gloch) |
| 4 Medi | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel Seion<br>am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog<br>Casgliad tuag at Hadau Gobaith |
| 19 Medi | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeh<br>– manylion i'w cadarnhau |
| 2 Hydref | Oedfa i ddathlu daucanmlwyddiant<br>geni Ieuan Gwyllt<br>Capel Pen-llwyn, am 5 o'r gloch |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## Tudalen y Plant – Y Picnic Mawr

Ydych chi'n hoffi cael picnic ar lan y môr?

Mae hanes yn y Beibl am Iesu'n cael picnic – i frecwast – gyda'i ffrindiau ar lan y llyn. Roedd ffrindiau Iesu wedi bod allan yn pysgota drwy'r nos, ond heb ddal dim byd o gwbl. Ond dywedodd Iesu wrthyn nhw am daflu'r rhwyd i ochr arall y cwch ac fe ddalion nhw 153 o bysgod – digon i gael picnic go fawr! Dyna beth rhyfeddol!

Roedd Iesu'n coginio pysgod ar y tân ac yn bwyta brecwast gyda'i ffrindiau. Enw un o'i ffrindiau oedd Ioan, ac fe ysgrifennodd yr hanes fel y gallwn ni ddarllen y stori yn y Beibl (Ioan 21).



Dyma fideo o'r hanes – https://youtu.be/N8y1ZHoLjuM.

Beth am i chi ei wylio gyda'ch ffrindiau!

**Gweddi**
Diolch, Iesu, am ffrindiau. Helpa fi i ddysgu sut i fod yn ffrind da, fel Iesu. Amen.

## Diolch

Yn annisgwyl bu'n rhaid i ni fel teulu wynebu'r brofedigaeth o golli mam. Yn 'annisgwyl', meddwn, a hynny er ein bod wedi ei gweld yn dihoeni ac yn colli ei nerth yn araf bach. Yn 'annisgwyl', er y gwyddem y medrem fod wedi ei cholli ar sawl adeg cyn hyn. Peth od ydy wynebu'r 'Angau' annisgwyl pan fu'n sbecian drwy ffenest gefn ein bywydau a ninnau heb ei weld na'i adnabod.

Hoffwn ddiolch i lu ohonoch a anfonodd gerdyn neu gyfarchiad a gair o gydymdeimlad. Fel teulu, wnaethon ni wir werthfawrogi'r caredigrwydd. Ac wrth ffarwelio ag Ann James y mae ein diolch yn anfesuradwy i'r Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a addawodd hyn i'w bobl yn awr eu cyfyngder: 'Ie, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed, canys yr wyt ti gyda mi, dy wialen a'th ffon a'm cysurant ...'

Felly, derbyniwch ein diolch diffuant.

Watcyn James ar ran y teulu i gyd

### Trysorydd newydd i'r Ofalaeth

Yng nghyfarfod Swyddogion yr Ofalaeth a gynhaliwyd ar 23 Mai, croesawodd y Cadeirydd, Mrs Ina Tudno Williams, ein trysorydd newydd, sef Mr Roland Williams, Capel Seion, gan ddiolch iddo am ei barodrwydd i ymgymryd â'r swydd allweddol hon o fewn yr Ofalaeth.

Mynegodd hefyd werthfawrogiad y pwyllgor o waith diwyd a chydwybodol Mr Owen Jenkins, Rehoboth, sydd wedi gweithredu fel Trysorydd yr Ofalaeth am nifer dda o flynyddoedd. Diolch yn fawr iawn, Owen.




Mae'r argyfwng hinsawdd presennol yn effeithio ar rai o gymunedau mwyaf bregus ein byd – ac mae'n gwneud hynny heddiw. Ond drwy waith PACIDA (Pastoralist Community Initiative and Development Assistance), partner Cymorth Cristnogol, mae llawer o'r rhai sy'n byw yn rhanbarthau garw Marsabit, Kenya, yn gallu addasu mewn ffordd sy'n sicrhau nid yn unig eu bod yn goroesi, ond hefyd yn ffynnu. Trwy gael hyfforddiant mewn ffyrdd newydd o ffermio, mae'r cymunedau hyn yn meithrin y gallu sydd ei angen arnynt i fyw'n llwyddiannus ar y tir.

Drwy apêl Hadau Gobaith, apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Cymorth Cristnogol am eleni, byddwn yn sefyll gyda nhw ac yn eu cefnogi yn eu hymdrechion.

Diolch i bawb sydd wedi eisoes cyfrannu at yr apêl. Y nod a osodwyd ar gyfer yr apêl eleni yw £16 yr aelod, a bydd pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau cymunedau bregus sy'n brwydro yn erbyn yr argyfwng yn yr hinsawdd.

Os nad ydych chi wedi cyfrannu ac yn dymuno gwneud hynny, cysylltwch â Swyddogion eich eglwys, os gwelwch yn dda.

## Gweddi Haf 2022

Wrth i brysurdeb ein gwaith arafu dros fisoedd yr haf, gadewch i ninnau hefyd ymdawelu i geisio'r Arglwydd.

Nid oes gennym mo'r adnoddau meddyliol, ysbrydol na deallusol i ddelio â'r heriau sy'n ein hwynebu fel cenedl, fel cymunedau, fel eglwysi. Wrth ymostwng i weddïo, cydnabyddwn nad oes iachâd nac iachawdwriaeth ynom. Gwnawn hynny gerbron Duw; cydnabyddwn mai ei ddoethineb ef yw sail ein hyder, mai ei ddeheulaw ef sy'n nerthu, mai Ef sy'n adfywio, sy'n cadarnhau ac sy'n arwain ei bobl i dymor nesaf ein bywydau.

### Gweddi

O Dduw, yr hwn a fuost i'n rhagflaenwyr yn nodded ac yn nerth, cofia ni yn awr wrth i ninnau ymostwng i'th geisio.

Arglwydd, cofia amdanom ninnau hefyd.

Rhoddaist i ni dymhorau, blynyddoedd, misoedd ac oriau. Rhoddaist 'amser' i ni er mwyn i ni fedru mesur ein rhawd ddaearol. Am rywbeth sydd â chymaint ohono o'n cwmpas, sylweddolwn fod ein cyfrif ym manc 'amser' yn lleihau fesul eiliad, a bod ein hamser ar y ddaear mewn gwirionedd yn adnodd prin iawn. Arglwydd Iesu, caniatâ i ninnau'r fraint o fyw bob dydd i'th glod. Dysga ninnau ym myd o amser i ddysgu caneuon tragwyddoldeb, fel y medrwn yn nhragwyddoldeb, mewn byd y tu hwnt i amser, barhau i fwynhau'r gogoniant y gelwaist dy bobl i'th fwynhau.

Arglwydd. Cofia ni.

Arglwydd Iesu Grist, dymuniad dyfnaf ein calonnau yw gweld dy Eglwys wedi ei gwisgo â gogoniant a nerthoedd y byd tragwyddol a gogoneddus sy'n perthyn i ti. Diolch am dywallt nerthoedd Ysbryd Glân ar dy eglwys, a diolchwn mai dyma'r gallu a'r nerth a gynhaliodd dy bobl o oes i oes, bob amser.

Arglwydd. Cofia ni.



Gweddïwn dros ein plant a’n pobl ifanc.

Gweddïwn dros ein hysgolion – dros yr athrawon, y disgyblion, y myfyrwyr fydd yn disgwyl canlyniadau ac a fydd yn paratoi i fynd i brifysgol. Arglwydd, bydd iddynt yn ddiddanwch.

I’r rhai sy’n gweld y dyddiau’n faith oherwydd anhwylder, neu salwch, neu brofedigaeth, y rhai efallai sy’n teimlo pwysau amser yn gwasgu arnynt, Arglwydd, bydd di dy hun iddynt yn ymgeledd ac yn gymorth hawdd dy gael.

Ac wrth i ni baratoi ar gyfer tymor newydd a gweithgarwch misoedd y gaeaf, rho i ninnau oleuni dy obaith, yr hyder o wybod dy fod gyda’th bobl, y llawenydd o wybod nad oes unrhyw beth a wneir er dy fwyn yn ddiwerth nac yn ddibwys gennyt.

Arglwydd pob gobaith, llanwa’n calonnau â’th obaith wrth i ni weithio a gweddïo a gwasanaethu gan ddisgwyl dyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist i fod yn farnwr, yn Waredwr, ac yn Arglwydd.

Addolwn di Dad, Mab ac Ysbryd Glân yn oes oesoedd. Amen.

## Cymdeithasu yn y festri



Braf iawn oedd cael y cyfle i gymdeithasu dros baned a sgwrs yn y festri yn dilyn y gwasanaeth bore Sul, 8 Mai – a hynny am y tro cyntaf ers dros ddwy flynedd. Diolch yn fawr iawn i Nans Morgan a Mair Jenkins am ddarparu ar ein cyfer.



## Capel y Garn

## Gorffennaf

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

3 Y Camau Nesaf: myfyrdod a sgwrs anffurfiol
dan arweiniad y Swyddogion am 10 o'r gloch
– cyfle i ystyried ein rôl fel eglwys yn y cyfnod yma

10 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

15 Pwyllgor Cymdeithas Lenyddol y Garn
am 2.30 o'r gloch – lleoliad i'w gadarnhau

17 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

24 Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch
yng Nghapel Seion
dan arweiniad y Gweinidog
Casgliad tuag at Hadau Gobaith

31 Oedfa'r Eisteddfod Genedlaethol
Pafiliwn yr Eisteddfod am 9 o'r gloch
Thema: 'Dadeni'

**Llongyfarchiadau calonnog i'r
Athro Gruffydd Aled a Mrs Eimear Williams
ar ddathlu eu priodas aur ar 2 Gorffennaf.**

Estynnnwn ein cydymdeimlad dwysaf â
Mrs Bethan Jones a'r teulu ar farwolaeth
ei brawd, Llewelyn Evans, Rhyd-y-main.



## Crefftwr wrth ei waith

Yn y llun gwelir Rees Thomas gyda'r gadair a gynlluniwyd ac a wnaed ganddo ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.

Mae ôl cynllunio manwl a thrylwyr ar ei grefftwaith. O edrych arni o'r ochr, mae llinellau'r gadair yn dilyn siâp afon Teifi ger maes yr Eisteddfod.

Eglura Rees mai pren derw o gors Fochno a ddefnyddiwyd ar gyfer y nod cyfrin a'r llythrennu; yn ôl arbenigwyr o'r Brifysgol, mae'n bedair mil o flynyddoedd oed o leiaf.

Awgrym Wynne Melville Jones, un o aelodau Cylch Cinio Aberystwyth, noddwyr a chomisiynwyr y gadair, oedd cynnwys llun o'r barcud – cyfeiriad at y ffaith fod y pâr olaf o farcutiaid yng Ngwledydd Prydain yn nythu yn ardal Tregaron, cyn iddynt gael eu hailgyflwyno.

Ysgrifennwyd y gair 'Ceredigion' yn wyddor Coelbren y Beirdd, a ddyleisiwyd gan Iolo Morganwg – ac os craffwch, gallwch weld enghreifftiau tebyg ar gerrig yr Orsedd ger y castell yn Aberystwyth.

Llongyfarchiadau calonnog i Rees ar ei gampwaith – a hyderwn y bydd teilyngdod yn Nhregaron, ac y bydd y bardd buddugol yn eistedd yn y gadair hardd hon 'yn hedd yr Eisteddfod'.

## Capel y Garn

## Awst

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

7 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog

14 Oedfa am 10 o'r gloch
yng Nghapel Noddfa

21 Oedfa dan arweiniad Miss Beti Griffiths
am 10 o'r gloch

28 Oedfa dan arweiniad Lyndon Lloyd
am 10 o'r gloch

## Medi

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

4 Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog yng Nghapel Pen-llwyn
Casgliad tuag at Hadau Gobaith

8 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 10 o'r gloch

11 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

18 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

19 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
– y trefniadau i'w cwblhau

25 Oedfa i'w threfnu

## Nasareth, Tal-y-bont – oedfa i ddiolch am dystiolaeth

Nos Sul, 19 Mehefin, o dan lywyddiaeth Ms Bronwen Morgan, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, cynhaliwyd Gwasanaeth Datgorffori'r Eglwys yn Nasareth, Tal-y-bont. Daeth yn agos i ddeugain o bobl ynghyd i ddiolch am dystiolaeth Nasareth ar hyd y blynyddoedd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Parch. Athro John Tudno Williams a'r Parch. Elwyn Pryse.

Rhyw oedfa chwerw-felys oedd hi. Roedd yn gyfle i ni gofio am hanes sefydlu'r achos, ac am lu o aelodau a fynychodd ac a fu'n addoli ac yn gwasanaethu. Ac roedd yr atgofion hynny'n felys. Ond roedd yna dristwch wrth feddwl y byddai'r capel yn cloi ei ddrysau am y tro olaf ar ddiwedd y gwasanaeth.

Arweiniodd y gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James, y rhannau arweiniol a chanwyd salm gyda'n gilydd, yn ôl arfer a thraddodiad unigryw capel Nasareth. Rhannwyd rhai atgofion diweddar am hanes yr achos gan Janet Jones a Nia Richards. Wrth ddiolch am fywyd y capel, atgoffodd y Parch. Wyn Morris ni fod yr eglwys yn fwy na'r adeilad, yn ehangach na'r blwch.

Anogodd y Parch Gwilym Tudur aelodau Nasareth i beidio ag anobeithio wrth adael eu cartref ond i gymryd y cam naturiol, wedi blynyddoedd o gyd-rannu a chyd-gymdeithasu gydag aelodau Bethel, i ymuno fel aelodau llawn yn yr unig gapel neu eglwys sy'n parhau i addoli yn Nhal-y-bont. Anogodd Watcyn y gynulleidfa i beidio â digalonni ond i gofio bod gwaith y Deyrnas yn parhau i fod yn nwylo Arglwydd y Deyrnas, y Llew o lwyth Jwda sydd â'r hawl ganddo i agor y sgrôl, ac mai ef, yr Arglwydd Iesu Grist ei hun, yw'r Oen a'n prynodd! Darllenodd y Llywydd y datganiad ac wedi canu emyn oedd yn gweddïo 'Dan dy fendith wrth ymadael ...' aethom gyda'n gilydd i rannu atgofion pellach dros baned.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a sicrhaodd fod yr oedfa wedi bod yn urddasol ac yn anrhydeddu'r efengyl yn ein plith. Gweddïwn y bydd trugaredd yr Arglwydd eto'n ymweld â'n gwlad.

Cyhoeddwyd y Fendith Apostolaidd gan y Parch. Wyn Morris a'r Parch. Ddr Watcyn James.



(Chwith)
Aelodau capel Nasareth gyda'r gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James

(Isod)
Ms Bronwen Morgan, Llywydd yr Henaduriaeth, gyda'r Parch. Ddr Watcyn James a'r Parch Wyn Morris

(Lluniau gan Gwyn Jenkins)



**Gwasanaeth**
**Dydd Gweddi'r Byd**
**yng Nghapel y Garn**



Bore Sul, 24 Ebrill, cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yng Nghapel y Garn, dan arweiniad Llinos Dafis a Liz Lloyd Jones. Thema'r oedfa eleni oedd: 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' (Llyfr Jeremeia, 29:11).

Lluniwyd y gwasanaeth gan chwiorydd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac roedd llun ar glawr y daflen o waith tecstiliau Angie Fox yn darlunio'r geiriau allweddol yn y thema.

Eglurodd yr artist: 'Ar ôl imi gael y thema, defnyddiais nifer o ddelweddau i gyfleu'r geiriau, fel a ganlyn:
**rhyddid**: drws yn agored ar lwybr agored a diderfyn;
**cyfiawnder**: cadwynau wedi'u torri;
**maddeuant a thangnefedd Duw**: colomen heddwch a lili heddwch yn torri drwy'r pafin.

Uwchben y cyfan, ceir enfys, sydd wedi dod i gynrychioli'r holl bethau hyn o stori Noa hyd at heddiw. Mae'n symbol o gariad hollgynhwysol Duw.'

Ar y dudalen gyferbyn, gwelir Llinos a Liz, gyda'r saith cannwyll a oleuwyd i gynrychioli saith rhanbarth byd y Dydd Gweddi, yn ogystal â llun o'r rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth.

Dosbarthwyd hadau blodyn yr haul i'r rhai oedd yn bresennol, yn sbardun i'n hysgogi i ystyried ble mae angen plannu hadau gobaith yn ein bywydau personol ni ein hunain ac yn ein cymunedau. Mae hedyn, wedi'i feithrin gan weddi a gweithredoedd cariad, yn clymu pobloedd at ei gilydd ledled y byd.


IHS


## Teyrnged i Nain, Mrs Ann James

Ddechrau mis Mawrth eleni gawson ni gyfle i ddod at ein gilydd i ddiolch am fywyd Nain. Fel gyda phob achlysur fel hyn, mae'n anodd meddwl sut y galla i ddweud rhywbeth addas mewn ychydig frawddegau, ond mi dria i fy ngorau!

Ym Mhenarth, ger Caerdydd, y ganwyd a magwyd Nain, ar aelwyd gapelog, gerddorol. Wedi dyddiau ysgol, aeth yn ei blaen i Goleg Prifysgol Caerdydd, gan raddio â BA mewn Cymraeg, Saesneg a Cherddoriaeth.

Roedd hi'n wraig alluog â diddordebau eang a dwfn. Roedd cerddoriaeth yn bwysig iawn iddi. Pan fydden ni'n mynd i aros efo hi yn Nhrawsfynydd roedd yn rhaid – <u>rhaid</u> – rhoi cynnig ar ddeuawd 'The Arrival of the Queen of Sheba' gan Handel ar y piano.

Roedd hi'n ddynes 'sharp' yn ystyr orau'r gair. Roedd hi'n hoffi trin a thrafod hanes, llenyddiaeth, ffydd a thipyn o bopeth arall – yn barod i wrando, dysgu, a chyfrannu i unrhyw sgwrs.

Wedi dweud hyn i gyd, mae'n bwysig i chi beidio cael camargraff fod bod yng nghwmni Nain yn rhyw fath o 'symposium' sych! Roedd hiwmor a chomedi yn rhan bwysig o'i chymeriad – yn enwedig comedïau radio'r 50au–70au, ac roedd ei sgwrs hi'n llawn o jôcs a ffraethineb.

Y rheswm y gofynnwyd i mi ysgrifennu hyn yw bod Nain wedi gwasanaethu fel cenhades yn India gyda'i gŵr, Henry R. James. Atgof plentyn bach sydd gen i o Taid, felly trwy Nain y clywson ni'r hanes am eu bywyd a'u profiadau mewn gwlad mor wahanol.

Fel plant, roedden ni wrth ein bodd yn clywed straeon am nadredd gwenwynig mewn ystafelloedd gwely, pontydd



Wrth i ni dyfu'n hŷn, daethon ni i glywed mwy am lawenydd a threialon eu bywyd yn rhannu'r efengyl mewn diwylliant arall.

Mae'n fraint i mi gael cysylltiad teuluol â'r rhai aeth o Gymru 'hyd eithaf y ddaear', a chael cyfle heddiw i ddiolch am y berthynas ffrwythlon sydd rhwng yr eglwys yn yr India a Chymru.

Fy ngweddi wrth ysgrifennu hyn yw y byddem ni i gyd yn fwy parod i wrando ar lais yr eglwys o amgylch ein byd – mae gennym lawer iawn i'w ddysgu oddi wrth frodyr a chwiorydd ym mhob man.

Roedd Nain yn Nain grêt, ac rydan ni'n gweld ei cholli. Wrth ddweud hynny, rydan ni'n glynu at addewid Duw yn Iesu Grist – nad yw marwolaeth, hyd yn oed, yn medru ein gwahanu ni oddi wrth ei bresenoldeb a'i gariad.

*Parch Ddr Andras Iago*

(*Lluniwyd y deyrnged hon i'w chyflwyno yn Nathliad Chwiorydd y Gogledd a Sasiwn Chwiorydd y De*)

# Cymdeithas Chwiorydd Rehoboth



I gloi'r tymor am eleni, aeth wyth o'r aelodau ar daith ar brynhawn Mawrth, 12 Ebrill, i ymweld â Melin Meirion, Dinas Mawddwy. Wedi cyrraedd yno, cafwyd peth amser i edrych o amgylch (a phrynu!) yn y siop helaeth, cyn eistedd wrth y bwrdd am 3 o'r gloch i fwynhau te prynhawn bendigedig. Roedd yn hyfryd cael bod gyda'n gilydd i fwynhau'r te a'r cymdeithasu, a phawb wedi cael prynhawn wrth eu bodd.

Cyn gadael, aethom i weld pont hynafol Minllyn dros afon Dyfi gerllaw, sy'n dyddio'n ôl i'r ail ganrif ar bymtheg. Credir iddi gael ei hadeiladu tua'r 1630au, a thalwyd am ei hadeiladu gan Dr John Davies (1567–1644), rheithor Mallwyd, er mwyn i bynfeirch dramwyo dros yr afon yn hwylus wrth gludo nwyddau. Roedd Dr John Davies yn un o ysgolheigion amlycaf yr oes yng Nghymru, a chredir iddo fod â rhan yn cyfieithu'r Beibl cyntaf i'r Gymraeg yn 1620, a'r Llyfr Gweddi Cyffredin yn 1621. Cyhoeddodd hefyd ei lyfr ei hun o ramadeg y Gymraeg. Bu'n rheithor ym Mallwyd o 1604 hyd nes ei farwolaeth yn 1644, ac mae'n debyg iddo dalu am adeiladu tair pont yn ardal Mallwyd.

*Carys Briddon*

## Capel Pen-llwyn:

Ddydd Sul, 8 Mai, cynhaliwyd Sul y Teulu yng Nghapel Pen-llwyn pryd y cymerwyd at y rhannau arweiniol gan blant yr ysgol Sul. Er nad ydym wedi dechrau 'nôl gyda'r ysgol Sul, mae'r plant yn fodlon iawn cymryd rhan yn y gwasanaethau pan ofynnir iddynt wneud hynny. Thema'r gwasanaeth oedd Gŵyl y Pentecost ac Esgyniad yr Iesu i'r nefoedd.

Canolbwyntiwyd ar wyliau'r Eglwys, e.e. y Nadolig, y Pasg, Diolchgarwch, yn ogystal â'r Pentecost a'r Dyrchafael. Diolch i Dr Watcyn James am oedfa fendithiol eto – y plant wedi dysgu llawer, yn enwedig wrth ateb cwestiynnau'r cwis ac wrth i'r Beibl ddod yn fyw iddynt.

Rydym yn dal i fynychu rhai ysgolion drwy'r cynllun Agor y Llyfr, ond ar Zoom y gwneir hyn ar hyn o bryd. Edrychir ymlaen at y sesiynau yma yn fawr gan y plant, ac maent hwythau'n elwa drwyddynt.

Dymuniadau gorau i rai o'n haelodau a chyfeillion sydd heb fod yn dda eu hiechyd neu wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar, ac eraill wedi profi profedigaeth yn y teulu. Hyderwn eich bod yn profi cysur yr Arglwydd yn eich cynnal ar adegau fel yma; rydych yn ein meddyliau ni fel eglwys.

*Heulwen Lewis*

Anfonwn eich cofion at aelodau a chyfeillion eglwysi'r ofalaeth sy'n wynebu profiadau a chyfnodau anodd yn eu bywydau ar hyn o bryd. Hyderwn eich bod yn profi nerth a chariad Duw yn eich amgylchynu a'ch cynnal:

Anadla arnom ni o'r nef
falm dy drugaredd dawel, gref;
pob calon ysig, boed yn dyst
fod hedd yn enw Iesu Grist.

## Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

Cynhaliwyd y Sasiwn eleni ddydd Iau, 19 Mai, yn Eglwys y Gopa, Pontarddulais. Llywydd oedfa'r prynhawn oedd Miss Annie Derrick o'r eglwys honno. Cafwyd anerchiad gan y Parchedig Nan Powell Davies ar ein thema eleni 'Gobaith yn Iesu: yr Alffa a'r Omega' (Datguddiad 22:13). Dylem ofyn am weledigaeth newydd a chymryd o ddifrif ein cyfrifoldeb am newid hinsawdd a hau 'Hadau Gobaith' yn ein heglwysi a'n cymunedau, a chefnogi'r rhai sy'n gweithio yn ein plith i wella'r sefyllfa.




Cyflwynwyd y llyfryn am eleni ar ein thema gan Mrs Sarah Morris: mae'n llawn adnoddau defnyddiol i eglwysi i fyfyrio ar y thema a hynny yn amlgyfrwng yn cynnwys tystiolaethau, gwasanaeth, astudiaethau Beiblaidd a mwy. Gellir cael copïau o Swyddfa'r Chwiorydd, drwy law Eirian Roberts, Coleg y Bala.

Llywyddwyd oedfa'r hwyr gan Mrs Margaret Jones, Port Talbot, a rhannodd Dr Graham Thomas ei brofiadau â ni o'i gyfnodau yn gweithio yn Lesotho drwy gyfrwng lluniau yn darlunio sefyllfa dorcalonnus yno, yn rhannol eto o effeithiau newid hinsawdd ac afiechydon heintus.

Gwahoddwyd pawb i Sasiwn y flwyddyn nesaf yn y Morfa, Aberystwyth, gan Mrs Iola Alban.

Cyflwynwyd cyfraniadau ariannol yr eglwysi i'r Trysorydd gyda diolch am bob haelioni. Rhaid diolch i chwiorydd y Gopa am de blasus a chyfle i gymdeithasu rhwng yr oedfaon, a diolch i Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro am logi bws i chwiorydd y cylch i deithio mor ddiffwdan.

Mae'n arfer yn y Sasiynau Cenhadol i goffáu cyn-genhadon. Coffawyd tair ohonynt yn y Gopa, yn eu plith yr oedd Mrs Ann James, mam ein Gweinidog. Lluniwyd teyrnged iddi gan ei hŵyr, y Parch Ddr Andras Iago, ac fe'i darllenwyd gan y Parch Nan Powell-Davies.

**Oedfa i ddathlu daucanmlwyddiant Ieuan Gwyllt**

Capel Pen-llwyn

Nos Sul, 2 Hydref 2022

am 5 o'r gloch

Arweinyddion: Mrs Margaret Daniel a Dr Rhidian Griffiths

Cyfeilydd: Mr Alan Wynne Jones

Dewch yn llu i ganu ac i rannu

Bydd rhaglen ar gael wrth y drws

Cyfrannodd John Roberts (Ieuan Gwyllt, 1822–77), a anwyd yn Nhanrhiwfelen, Capel Seion, cyn i'w deulu symud i ardal Pen-llwyn, yn aruthrol i ganu cynulleidfaol yng Nghymru.

Yn ogystal â chyfansoddi emyn-donau mawreddog fel 'Moab' a 'Liverpool', cyhoeddodd *Sŵn y Jiwbilî*, oedd yn addasiad o emynau poblogaidd Sankey a Moody. Rydym yn parhau i ganu rhai o'i donau mwyaf poblogaidd hyd heddiw!

Byddwn yn cael ein harwain i gofio am fywyd ac am gyfraniad John Roberts gan Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth, sy'n gerddor ac yn arbenigwr ar hanes ein canu cynulleidfaol.

Bydd Margaret Daniel, Blaenannerch, yn ein harwain i ganu detholiad o'r emynau, a bydd Alan Wynne Jones yn cyfeilio wrth i ni gydganu.

Bydd rhaglen arbennig yn cael ei pharatoi ar gyfer yr achlysur ac fe fydd ar gael wrth y drws.

Croeso cynnes i bawb

## Trefniadau'r Eisteddfod Genedlaethol

**Dydd Sul, 31 Gorffennaf:**

Oedfa'r Bore yn y Pafiliwn am 9 o'r gloch – bydd angen i bawb fod yn eu seddau erbyn 8.30 o'r gloch, a bydd tâl mynediad i'r maes yn daladwy. Thema'r gwasanaeth fydd 'Dadeni' a bydd nifer o blant ac oedolion o ardaloedd ledled y sir yn cymryd rhan. Cyflwynir y neges gan yr Athro Densil Morgan, Llanbedr P.S.

Cymanfa Ganu'r Eisteddfod yn y Pafiliwn am 7 o'r gloch
Arweinydd: Delyth Hopkins Evans

**Stondin Cytûn ar y Maes drwy'r wythnos:**

Oedfa fer am 11 o'r gloch bob dydd
Sesiynau amrywiol am 2 o'r gloch bob dydd

**Pabell y Cymdeithasau 2**

Dydd Mercher, 3 Awst, am 10.30 o'r gloch
'Ieuan Gwyllt a Thanymarian: tadau canu cysegredig Anghydffurfiol Cymru?' – Trystan Lewis
(Cymdeithas Emynau Cymru)

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Ina Tudno Williams, Capel Seion
Is-gadeirydd: Alwyn Hughes, Madog
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **11 Medi** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street